Diweddariad ysgolion Llywodraeth Cymru

Heddiw (22 Chwefror), cadarnhaodd Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, os bydd y sefyllfa'n parhau i wella dros y tair wythnos nesaf, y gall yr holl blant oedran cynradd ddechrau dychwelyd i'w hystafelloedd dosbarth o 15 Mawrth.

Ar yr un pryd, bydd dysgwyr ym mlynyddoedd 11 a 13, a'r rhai sy'n gwneud cymwysterau tebyg mewn colegau, yn gallu dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb mewn ffordd ddiogel a hyblyg.

Lle y bo'n bosibl, maent hefyd am roi rhywfaint o hyblygrwydd o ran dysgwyr eraill, megis Blwyddyn 12 a'r rhai ym Mlwyddyn 10 a allai hefyd fod wedi'u cofrestru ar gyfer cymwysterau yr haf hwn. Yn anffodus, ni fydd hyn o reidrwydd yn golygu dychweliad i ddysgu amser llawn ar y safle.

Cadarnhaodd hefyd y byddai profion ddwywaith yr wythnos yn cael eu hymestyn i ddysgwyr hŷn o flynyddoedd 11 i 13 a'r rhai mewn lleoliadau Addysg Bellach, yn ogystal â staff addysg. Bydd profion yn cael eu cynnal drwy ddyfeisiau llif unffordd, sy'n golygu y gellir eu gwneud o gartrefi dysgwyr, a fydd yn helpu gyda'r bwriad i weld disgyblion hŷn yn dychwelyd o 15 Mawrth.

Bydd y sefyllfa i ddysgwyr eraill yn cael ei chadarnhau cyn gwyliau'r Pasg, ond y gobaith yw cael yr holl ddysgwyr yn ôl yn yr ysgol ar ôl y cyfnod hwnnw.

Datganiad Ysgrifenedig: Y cynnig i gyflenwi profion ar gyfer ysgolion, colegau a lleoliadau gofal plant yn cael ei ymestyn i gynnwys dysgwyr uwchradd a cholegau uwch